Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Samariad Caredig



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

addaswyd gan: Ruth Klassen; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

"Athro, beth sydd
raid i mi ei wneud
i gael bywyd
tragwyddol?"

Cyfreithiwr oedd yn gofyn y cwestiwn, ac roedd e'n trio rhoi prawf ar Iesu.
"Beth mae Cyfraith Duw yn ei ddweud?"

atebodd Iesu. "Rwyt i garu Duw a dy gymydog," meddai'r dyn. Ond pwy ydy fy nghymydog i?" gofynnodd.

Er mwyn ateb cwestiwn y dyn, dywedodd Iesu stori am ddyn yn teithio ar hyd y ffordd o ...

... Jerwsalem i Jericho.
Dyma ladron yn ymosod arno.

Dyma nhw'n dwyn popeth oddi arno, hyd yn oed ei ddillad! Dyma nhw'n ei guro a'i adael
yn hanner marw
ar ochr y ffordd.

Roedd offeiriad yn digwydd pasio heibio.
Siawns na
fyddai e'n rhoi help i'r dyn druan.


Na! Pan welodd fod
y dyn yn gwaedu,
croesodd i
ochr arall
y ffordd a cherdded yn ei flaen.

Cyn hir dyma glywed sŵn traed, a
daeth person arall heibio –
Lefiad oedd yno.
Ei waith oedd
helpu'r
offeiriaid yn y deml.

Aeth at y dyn druan ac edrych arno, cyn cerdded i ffwrdd heb ei helpu.


Yn olaf, daeth dyn o Samaria heibio.
Roedd yr Iddewon yn casáu
pobl Samaria.

Byddai'r bobl oedd yn gwrando ar Iesu ddim yn disgwyl i'r dyn o Samaria ymddwyn fel arwr.
Ond dyma'r dyn
yn aros i helpu.

Penliniodd y Samariad wrth ochr y dyn a rhoi cadachau ac eli ar friwiau'r

dyn dieithr.

Yna rhoddodd help i'r dyn druan fynd ar gefn ei ful.

Wedi cyrraedd gwesty ar ochr ffordd, gofalodd y Samariad am y dyn drwy'r nos.

Yn y bore, rhoddodd arian
i berchennog y gwesty
a gofyn iddo ofalu am y
teithiwr nes
ei fod wedi
gwella.

Dyna ddiwedd y stori. Gofynnodd Iesu, "Pwy fu'n gymydog i'r dyn oedd wedi ei anafu?"

Atebodd y Cyfreithiwr, "Y dyn o Samaria oedd y cymydog, yr un wnaeth ei helpu."

"Dos dithau a gwna'r un fath." Mae pawb sydd mewn angen yn gymydog i ni. Mae rhoi help i bobl sydd mewn angen yn ffordd o ddangos cariad. Mae hynny'n plesio Duw.

Y Samariad Caredig

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 10

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16